Ofcom

# Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

Cylch gorchwyl

Cyhoeddwyd ar 10 Medi 2024

# Mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol i gynulleidfaoedd

Mae gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) le unigryw yng nghymdeithas y DU. Mae'n darparu newyddion dibynadwy a chywir, cynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Yn draddodiadol, mae gwylio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi bod ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – BBC, ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5. Mae eu rôl yn cynnwys darparu amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU ac sydd ar gael am ddim i bawb. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r cynnwys hwn a'u bod yn dal i droi ato, boed hynny ar gyfer newyddion ac adloniant o ddydd i ddydd neu ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol.

Mae llawer o'r cynnwys y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei gomisiynu yn cael ei gynhyrchu gan sector cynhyrchu ffyniannus y DU. Mae'r diwydiant hynod lwyddiannus hwn, sy'n enwog yn rhyngwladol, werth biliynau o bunnoedd i economi'r DU[1] ac mae wedi sbarduno mewnfuddsoddiad sylweddol gan gwmnïau cyfryngau byd-eang. Fodd bynnag, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn ganolog i'w gynaliadwyedd cyffredinol.

Conglfaen cylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw darparu newyddion dibynadwy a chywir sy'n helpu pobl i ddeall y byd o'u cwmpas. Mae'n cefnogi democratiaeth drwy ddal llywodraeth a sefydliadau i gyfrif ar lefel leol, genedlaethol a'r DU a gallai helpu i wrthsefyll effaith y cynnydd mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein. Mae cynulleidfaoedd ledled y DU hefyd wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi gwybod am newyddion a digwyddiadau lleol.[2] Mae lefelau ymddiriedaeth yn y darparwyr hyn yn uchel o'u cymharu â'r rhan fwyaf o ffynonellau newyddion eraill, er eu bod yn gostwng.

# Mae defnydd y gynulleidfa'n parhau i symud ar-lein

Mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys ar draws ystod llawer ehangach o wasanaethau ac mae rhywfaint o'r rhaglenni hyn yn debyg i'r cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae Sky News ac eraill yn darparu newyddion o ansawdd uchel yn y DU ac yn rhyngwladol ac mae llawer o ffrydwyr byd-eang, fel Netflix, yn cynnig dramâu a rhaglenni dogfen o'r radd flaenaf sy'n cael eu cynhyrchu gan sector cynhyrchu'r DU ac sy'n apelio'n fawr at gynulleidfaoedd yn y DU.

Mae tua hanner yr holl wylio nawr yn cael ei wneud ar wasanaethau fideo ar-alw a llwyfannau rhannu fideos, gyda thri o bob pump ohonom yn defnyddio YouTube bob wythnos.[3] Mae gwrando ar y radio fel cyfran o gyfanswm awdio hefyd yn gostwng (er ar gyfradd arafach na theledu sy'n cael ei ddarlledu) wrth i wrandawyr droi at wasanaethau ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau.[4] Mae'r

[1] Amcangyfrifodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod y sector ffilm, teledu, radio a cherddoriaeth wedi cyfrannu £21bn at economi'r DU yn 2022.
[2] Ofcom, Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU: Cylch gorchwyl, Rhagfyr 2023, tudalen 2.
[3] Ymysg oedolion 4 oed a hŷn yn y DU yn 2023. Ofcom, Media Nations: UK 2024, tudalen 27.
[4] Gostyngodd cyfanswm y gwrando ar radio o 72% yn 2019 i 61% yn 2023/24, ond roedd gwrando ar radio ar-lein wedi cynyddu o 5% i 11% dros yr un cyfnod. Mae ychydig dros draean o'r gwrando ymysg pobl ifanc 15-34 oed yn digwydd ar y radio, ac mae 45% yn gwrando ar gerddoriaeth sy'n cael ei ffrydio. Ofcom, Media Nations: UK 2024, tudalen 59.

tueddiadau hyn yn arbennig o acíwt ymysg plant a phobl ifanc sy’n treulio mwy o amser ar wasanaethau fel YouTube a TikTok na theledu a radio sy’n cael eu darlledu.

Mae’r duedd tuag at wasanaethau ar-lein yn arbennig o amlwg ar gyfer newyddion, lle mae newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dibynadwy a chywir yn wynebu cystadleuaeth na welwyd ei thebyg o’r blaen am sylw cynulleidfaoedd. Mae mwy o oedolion yn y DU yn cael newyddion ar-lein nag unrhyw ffynhonnell arall erbyn hyn, ac mae dros hanner ohonom yn cael ein newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol.[5] Mae gan gyfryngwyr ar-lein byd-eang reolaeth sylweddol dros ba newyddion a chynnwys arall mae defnyddwyr yn ei weld ar eu llwyfannau.[6]

Mae llawer o bobl yn cael eu newyddion ar-lein, o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys darparwyr newyddion traddodiadol, dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol neu ffynonellau newyddion eraill. Mae cynulleidfaoedd yn amlwg yn gwerthfawrogi’r dewis cynyddol hwn ond nid yw rhai o’r ffynonellau hyn o reidrwydd yn glynu wrth safonau newyddiadurol uchel ac efallai eu bod wedi cael eu hargymell iddynt gan algorithmau. Ychydig iawn o reolaeth sydd gan gynulleidfaoedd dros yr hyn maen nhw’n ei weld ar eu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol sydd ond yn gallu cynnig ystod gyfyngedig o bynciau newyddion.[7] Yn yr amgylchedd hwn, gall camwybodaeth a thwyllwybodaeth waethygu’n gyflym a mynd y tu hwnt i reolaeth, ac mae rhai’n ei chael hi’n anodd gwybod beth maen nhw’n gallu ymddiried ynddo.[8] Yn ystod Etholiad Cyffredinol diweddar y DU, dywedodd 60% o oedolion eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.[9] Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod y rheini sy’n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bennaf ar gyfer newyddion yn fwy pegynol yn eu barn, yn llai gwybodus ac yn ymddiried llai mewn sefydliadau democrataidd na’r rheini sy’n defnyddio ffynonellau traddodiadol.[10] Mae defnyddwyr hefyd yn rhoi sgôr is o lawer i’r cyfryngau cymdeithasol o ran cywirdeb, dibynadwyedd a diduedddrwydd.[11]

## Mae’r newidiadau seismig hyn yn bygwth cynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddiwygio’n sylweddol, mewn ymateb i’r newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd. Maen nhw’n buddsoddi yn eu chwaraewyr digidol i ddarparu cynnwys lle mae cynulleidfaoedd yn bodoli, ar yr un pryd â pharhau i ariannu’r gwaith o ddarparu gwasanaethau llinol y mae llawer yn parhau i’w gwylio.[12] Maent hefyd yn blaenoriaethu cynnwys effaith uchel sy’n apelio at gynulleidfaoedd digidol a llinol. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio llwyfannau rhannu fideos fel YouTube a Tik Tok fwyfwy i gysylltu â gwylwyr iau ac maent wedi dechrau creu cynnwys sy’n apelio’n benodol at y gwylwyr hyn, fel fideos byr. Mae’r strategaethau newydd ac esblygol hyn yn gostus.

---

[5] 71% ar-lein, 70% ar deledu ac ar-alw. Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2024, tudalen 3.
[6] Dangosodd ein hymchwil fod safle erthyglau newyddion mewn ffrydiau cyfryngau cymdeithasol yn effeithio’n gryf ar ei debygolrwydd o gael ei weld a’i gofio. Ofcom, Diweddariad ymchwil newyddion ar-lein, 2024, tudalennau 10-12.
[7] Ofcom, Diweddariad ymchwil newyddion ar-lein, 2024, tudalennau 17-19.
[8] Ofcom, Adroddiad Defnydd Oedolion o’r Cyfryngau a’u Hagweddau Atynt 2024.
[9] Yn ystod yr wythnos flaenorol. Ofcom, Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol 2024 y DU.
[10] Ofcom, Lluosogrwydd yn y cyfryngau a newyddion ar-lein: Dogfen Drafod, 2022.
[11] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2024, tudalen 10.
[12] Ofcom, Dyfodol dosbarthu teledu: Adroddiad cynnar ar y farchnad i’r Llywodraeth, 2024.

Ar ben hynny, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cystadleuaeth sylweddol ar gyfer cynulleidfaoedd a refeniw hysbysebu gan chwaraewyr byd-eang sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar eu cyllid. Er bod refeniw hysbysebu traddodiadol ar y teledu yn amrywio yn unol ag amodau macro-economaidd, mae Covid a'r gostyngiad mewn cynulleidfaoedd llinol wedi effeithio arnynt hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[13] Er bod refeniw hysbysebu ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn cynyddu, nid yw hyn yn ddigon i wrthbwyso colledion llinol. Er bod y farchnad hysbysebu yn effeithio llai o lawer ar y BBC, mae refeniw ffi'r drwydded wedi gostwng mewn termau real dros y degawd diwethaf.[14]

Felly, fel y nodwyd yn ein hadolygiad diwethaf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – sgrin fach: trafodaeth fawr – mae risgiau difrifol i swmp y cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir yn y dyfodol yng ngoleuni'r heriau ariannol sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae llawer o'r argymhellion a wnaethom yn ein hadolygiad diwethaf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu mabwysiadu yn Neddf Cyfryngau 2024. Rydym yn croesawu'r diwygiad rheoleiddio hanfodol hwn ac ar ôl ei roi ar waith[15], bydd yn helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well ar draws eu gwasanaethau llinol ac ar-alw. Bydd hefyd yn sicrhau eu bod yn dal ar gael yn rhwydd i gynulleidfaoedd drwy roi mwy o amlygrwydd i chwaraewyr ar setiau teledu cysylltiedig.

Fodd bynnag, mae cyflymder parhaus y newid yn golygu ei bod yn hanfodol ein bod yn parhau i asesu pa ddiwygiadau pellach y gallai fod eu hangen i ddiogelu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hanfodol ar gyfer cynulleidfaoedd y DU: newyddion dibynadwy a chywir, cynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan a chynnwys sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd.

## Bydd ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn 2025 mewn dau gam

Mae sicrhau cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi yn un o ganlyniadau blaenoriaethol Ofcom. Yn yr adolygiad hwn byddwn yn adeiladu ar ein gwaith ar draws Ofcom, gan ddefnyddio'r cyfoeth o wybodaeth am y farchnad ac ymchwil rydym yn ei wneud yn barhaus.

### Sut mae Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyflawni, a'r heriau i ddarpariaeth yn y dyfodol

Bydd y cam cyntaf yn egluro sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd y DU dros y pum mlynedd diwethaf (2019 i 2023).[16] Byddwn hefyd yn edrych ar sut

---

[13] Ofcom, Cyfryngau'r Genedl: DU 2024, tudalen 31.
Dywedodd y BBC fod refeniw ffi'r drwydded wedi gostwng 30% rhwng 2010 a 2020 (gweler Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2023/24, tudalen 9). Fel rhan o setliad ffi'r drwydded 2022 ar gyfer gweddill y Siarter, cafodd ffi'r drwydded ei rhewi am ddwy flynedd ac mae bellach yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant CPI.
[15] Rydym wedi nodi Trywydd ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Ddeddf Cyfryngau.
[16] Cynhelir yr adolygiad hwn o dan adran 264 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Mae'n rhaid i ni gynnal adolygiad o'r graddau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu gwasanaethau teledu perthnasol sydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod ein hadolygiad, ac adrodd ar ein canfyddiadau gyda'r bwriad o gynnal a chryfhau darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Wrth wneud hynny, rhaid i ni hefyd ystyried i ba raddau mae cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau cyfryngau eraill wedi cyfrannu at amcanion y nodwyd eu bod yn ddymunol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol (gweler adran 264A ac adran 264(6) y Ddeddf).

mae darparwyr newyddion ac adloniant eraill wedi cyfrannu at ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein a darlledu perthnasol eraill.

Wrth archwilio sut bydd newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd yn effeithio ar ddefnydd a hyfywedd ariannol cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, byddwn yn edrych ar yr heriau i'w ddarpariaeth dros y degawd nesaf a thu hwnt. Byddwn yn edrych ar sut mae darparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu gwerthu eu cynnwys ar-lein ac a fydd gwahanol grwpiau cynulleidfa fel plant a phobl ifanc a'r rheini yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn parhau i gysylltu â chynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod newyddion lleol a DU dibynadwy a chywir ar gael yn rhwydd ar y gwasanaethau a'r llwyfannau mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio. Byddwn yn edrych ar yr effaith y mae newidiadau yn yr ecosystem newyddion yn ei chael ar gynulleidfaoedd ac yn nodi'r goblygiadau ar gyfer newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein a'i ddarpariaeth gynaliadwy.

## Cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fywiog

Bydd ein hail gam yn adeiladu ar y newidiadau sylweddol a pharhaus i arferion a thechnoleg cynulleidfaoedd rydym wedi'u nodi, a bydd yn ystyried cyfleoedd i gefnogi cynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac argaeledd newyddion cywir o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo.

Byddwn yn asesu:

- Sut gallwn ni gefnogi cynulleidfaoedd i gael mynediad parod at gynnwys o'r DU sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU, lle bynnag maen nhw eisiau ei wylio a gwrando arno?
- Sut gall darparwyr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gysylltu â phlant a chynulleidfaoedd iau, o ystyried eu harferion gwylio sy'n newid?
- Sut gallwn ni gefnogi gallu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddiaduraeth ymchwiliol a gohebu lleol, o ystyried rôl gynyddol cyfryngwyr ac algorithmau ar-lein?
- Sut gall darlledwyr a llwyfannau gefnogi llythrennedd cynulleidfaoedd yn y cyfryngau i'w helpu i liniaru effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth?
- Sut gallwn ni gefnogi'r gwaith o ddarparu a chynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys yn y DU mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys newyddion cenedlaethol a lleol, o ystyried yr heriau cyllido?


Fel rheoleiddiwr cydgyfeiriol, byddwn yn defnyddio ein hystod eang o bwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth darlledu ac ar-lein i helpu i gefnogi sector cyfryngau ffyniannus, er enghraifft, drwy wneud newidiadau i'n rheolau, lle bo hynny'n berthnasol. Efallai y byddwn hefyd yn nodi meysydd lle mae angen rhagor o ymyrraeth gan y Llywodraeth. Pan fo hynny'n wir, byddwn yn nodi opsiynau i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a fynegwyd yn ein dogfen canfyddiadau ar gyfer 2025.

# Y camau nesaf

Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod gaeaf 2024/25 a'r ddogfen canfyddiadau yn ystod haf 2025.

Rydym yn awyddus i archwilio’r materion hyn gyda rhanddeiliaid ac i glywed eu syniadau ar gyfer cynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn y dyfodol. Os hoffech chi gymryd rhan yn y sgwrs, mae croeso i chi gysylltu â PSMReview2025@ofcom.org.uk

**Amserlen yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a phrosiectau cysylltiedig**[17]




[17] Byddwn yn cyhoeddi trywydd wedi’i ddiweddaru ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau diogelwch ar-lein yn yr hydref.